Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
17 Hydref 2022

SL(6)265 – Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2022

Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adeiladu 2010 ("y Rheoliadau Adeiladu") i gymhwyso gofynion sy'n ymwneud â systemau cynhyrchu trydan ar y safle ac yn darparu ar gyfer comisiynu trydan ar y safle, mewn adeiladau annomestig o 29 Mawrth 2023 ymlaen.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio darpariaethau trosiannol Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2022 ("Rheoliadau Diwygio 2022"). Mae'r diwygiadau:

- yn darparu bod safleoedd sydd wedi cydymffurfio â darpariaethau trosiannol blaenorol (fel y rhai sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Adeiladu (Diwygio) (Cymru) 2014) yn cael eu heithrio o'r gofynion newydd a geir yn Rhannau 2 a 3 o Reoliadau Diwygio 2022;
- yn cywiro gwall fel bod y darpariaethau trosiannol ond yn gymwys i geisiadau rheoliadau adeiladu a ddaeth i law cyn y dyddiad dod i rym; ac
- yn cywiro gwall fel nad yw'r darpariaethau trosiannol yn gymwys i reoliadau 14 ac 17 o Reoliadau Diwygio 2022, sy'n diweddaru enwau cwmnïau sy'n profi pwysau ar gyfer aerglosrwydd adeiladau a gweithredwyr cynlluniau personau cymwys awdurdodedig.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o becyn o fesurau. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflawni newidiadau eraill drwy ddulliau anneddfwriaethol ar ffurf newidiadau i Ddogfennau Cymeradwy (a gymeradwywyd ac a gyhoeddwyd o dan adran 6 o Ddeddf Adeiladu 1984, at y diben o ddarparu canllawiau ymarferol mewn perthynas â gofynion unrhyw ddarpariaeth o reoliadau adeiladu) a'r fethodoleg gyfrifo genedlaethol.

Rhiant-Ddeddf: Ddeddf Adeiladu 1984
Fe'u gwnaed ar: 26 Medi 2022
Fe'u gosodwyd ar: 28 Medi 2022
Yn dod i rym: yn unol â rheoliad 1(3)